



Ysgol Gwyddor
Filfeddygol Aberystwyth

Astudiaethau israddedig mewn

Gwyddor Filfeddygol

Contents

Croeso	p.1
Cyfleusterau	p.2
Ymchwil	p.4
Ein cyrsiau	p.6
Sut i wneud cais	p.8



Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Mehefin 2022), ond fe allai newid. Cyngorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

Croeso

Croeso i Ysgol Filfeddygaeth Aberystwyth - yr Ysgol Filfeddygol gyntaf o'i bath a'r unig un yng Nghymru.

Fel rhywun sy'n angerddol am hyfforddiant milfeddygol a'r rôl y gall y proffesiwn milfeddygol ei chwarae mewn cymdeithas, nid yn unig yng Nghymru ond yn fyd-eang, fe'ch gwahoddaf yn gynnes i ystyried astudio gyda ni.

Mae ein gradd Baglor Milfeddygaeth (BVSc) yn cynnig cyfle unigryw i hyfforddi mewn dau sefydliad addysgol a gwyddonol blaengar: y Coleg Milfeddygaeth Brenhinol a Phrifysgol Aberystwyth.

Sefydlwyd Prifysgol Aberystwyth ym 1872, ac ers canrif a hanner bu'n darparu ymchwil arloesol ym meysydd Amaethyddiaeth, a Gwyddorau Anifeiliaid a Biolegol.

Y Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, a sefydlwyd ym 1791, yw'r ysgol filfeddygaeth annibynnol fwyaf a'r hynaf ym Mhrydain, ac y mae'n Aelod Sefydliad o Brifysgol Llundain. Yn ôl cyngrair QS o Brifysgolion y Byd, sy'n barnu fesul pwnc, hi yw ysgol filfeddygol flaenaf y byd.

Mae'r darlithwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygol nid yn unig yn ymchwilwyr a chlinigwyr ar lwyfan byd-eang sy'n llwyr ymroddedig i'w meysydd; y maent hefyd yn weithwyr proffesiynol arbennig o gymwysedig.

Mae ein cwrs wedi'i gynllunio i hyfforddi myfyrwyr i weithio yn y ffordd orau bosibl gyda nifer o wahanol anifeiliaid, mewn amrywiaeth o leoliadau cyflogaeth, ac i ddarparu addysgu damcaniaethol ac ymarferol o safon uchel.

Os ydych chi'n angerddol am Filfeddygaeth, beth am ymuno â ni ar Ddiwrnod Agored i gwrdd â'n staff a gweld ein cyfleusterau addysgu ac ymchwil rhagorol. Byddwch yn darganfod beth sy'n gwneud Aberystwyth yn lle mor anhygoel i fyw a dysgu.

Yr Athro Darrell Abernethy

Pennaeth Ysgol Filfeddygaeth Aberystwyth



Cyfleusterau

Mae'r Ganolfan Addysg Filfeddygol i'w chael ar Gampws Penglais. Yno ceir ystafelloedd ar gyfer sgiliau clinigol a hyfforddiant ar ymdrin ag anifeiliaid anwes, yn ogystal ag adnoddau dysgu anatomeg a mannau i'r myfyrwyr drafod ac ymbaratoi cyn y dosbarthiadau.



Canolfan Geffylau'r Lluest

Mae'r Ganolfan Geffylau yn gyfleuster addysgu pwrpasol a Chanolfan Hyfforddi a Gymeradwywyd gan Gymdeithas Ceffylau Prydain (BHS). Mae'r cyfleusterau'n cynnwys arena dan do o faint rhyngwladol, ysgol awyr agored, man cerdded ceffylau a chorlan gron, blychau rhydd a blychau arddangos a set gyflawn o glwydi neidio a llenwyr.

Ffermydd y Brifysgol

Mae ffermydd y brifysgol sydd wedi'u lleoli yng Ngogerddan (fferm ddefaid a chig eidion), Morfa Mawr (tir pori isel), Trawsgoed (fferm laeth) a Phwllpeiran (ucheldir) yn ymestyn i gyfanswm o dros 800 hectar, ac yn amrywio o 0-600 metr uwchlaw lefel y môr. Rhyngddynt, mae'r pedwar safle hyn yn manteisio ar ddaearyddiaeth Gorllewin Cymru i ddarparu sbectrwm o heriau amgylcheddol sy'n cynrychioli'n fras yr amodau tyfu ar gyfer tua 80% o laswelltiroedd y DU.


Mae ein ffermydd yn gweithredu fel safleoedd arloesi ar gyfer gwasanaeth trosglwyddo gwybodaeth Llywodraeth Cymru i'r diwydiant. Mae Trawsgoed yn gartref i tua 420 o wartheg godro gyda lloia gydol y flwyddyn a systemau godro robotig o'r radd flaenaf, tra bod Gogerddan, Pwllpeiran a Morfa Mawr yn gartref i ddiadelloedd o ddefaid ar yr ucheldir a'r iseldir a buchasi o wartheg biff.



Pwllpeiran

Mae Canolfan Ymchwil yr Ucheldir, Pwllpeiran yn ganolfan ar gyfer astudio ecosystemau ucheldirol sy'n cael eu ffermio. Saif yng nghalon mynyddoedd y Canolbarth ac yn gartref i deulu o alpacas.

Mae Pwllpeiran yn ficrocosm ar gyfer ardaloedd ucheldirol a dyma'r unig gyfleuster o'r fath yng Nghymru a Lloegr. Mae ei ymchwil yn hanfodol i sicrhau sylfaen gadarn o dystiolaeth ar gyfer polisiau ar adeg o newid gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol na welwyd ei debyg o'r blaen.



Ymchwil

Ymchwil ar y gweill yn Ysgol Filfeddygaeth Aberystwyth.

Mae gwaith ymchwil sy'n cynnwys academyddion o Brifysgol Aberystwyth yn astudio'r modd y mae afiechyd a llygredd yn cyfrannu at ddirywiad ym mhoblogaeth pengwinaid Affrica, rhywogaeth a allai ddiflannu'n llwyr o fewn y 30-80 mlynedd nesaf. Yr Athro Darrell Abernethy, Pennaeth yr Ysgol Filfeddygaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth yw un o sylfaenwyr Prosiect 'Iechyd Pengwinaid Affrica'.

Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, amcangyfrifwyd bod poblogaeth o dros dair miliwn o'r rhywogaeth hon o bengwinaid. Fodd bynnag, mae'r boblogaeth wedi cwmpo'n sylweddol oherwydd gor-gasglu wyau a guano, ac, yn fwy diweddar, diffyg pysgod o ganlyniad i bysgota diwydiannol a newidiadau amgylchiadau.

Erbyn 2009, 26,000 yn unig o barau bridio oedd, ac, o ganlyniad, dynodwyd yr adar fel rhai dan fygythiad gan yr Undeb Rhyngwladol dros Warchod Natur (IUCN). Erbyn heddiw, llai na 20,000 o barau sydd - llai na 3% y niferoedd a fu 100 mlynedd yn ôl.

Er bod y bygythiadau allweddol iddynt yn hysbys, a gwnaed ymdrechion lu gan y llywodraeth ac asiantaethau preifat i fynd i'r afael â nhw, ni wyddys lawer am y bygythiadau iechyd ac afiechydon i'r rhywogaeth.

Mae grŵp o bartneriaid rhyngwladol, o'r enw 'Iechyd Pengwinaid Affrica', yn cynnal ymchwil mewn pum maes mewn ymdrech i ddarganfod achosion iechyd cwmp y boblogaeth.

Mae'r gwaith yn cynnwys cynnal arolwg iechyd o'r pengwinaid drwy archwilio adar gwyllt, cymryd ystod o samplau er mwyn eu dadansoddi, chwilio am gemegau gwenwynig mewn adar sydd wedi marw, monitro arfordiroedd a chytref gan ddefnyddio gwyddoniaeth dinasyddion a dronau, asesiadau rhanddeiliaid a modelu newid yn y boblogaeth.

Trwy ddeall risgiau afiechydon, y gobaith yw y gellir achub pengwinaid Affrica rhag difodiant.



Gwyddor Milfeddygaeth

BVSc (Hons)

Mae'r radd Baglor Milfeddygaeth (BVSc) yn cynnig cyfle unigryw i hyfforddi mewn dau sefydliad addysgol a gwyddonol blaengar: y Coleg Milfeddygaeth Brenhinol a Phrifysgol Aberystwyth. Mae'r cwrs newydd cyffrous hwn yn cyfuno arbenigedd gwyddonol a chlinigol o'r ddau sefydliad i roi hyfforddiant milfeddygol eang i fyfyrwyr, o wartheg i anifeiliaid anwes poded, ymarfer clinigol i ddiwydiant, ac o iechyd anifeiliaid i iechyd pobl.

Cynnwys y Cwrs

Trefnir yr addysgu yn 'ffrydiau'. Dychwelir at y ffrydiau hyn yn aml, gan ganolbwyntio i ddechrau ar yr anifail iach, a symud ymlaen trwy glefydau gwahanol systemau, a sut i'w harchwilio a'u trin. Bydd hefyd ffrydiau sy'n canolbwyntio ar yr wyddoniaeth sylfaenol ac effaith clefydau anifeiliaid ar iechyd y cyhoedd.

Yn y ddwy flynedd gyntaf byddwch yn treulio eich amser ym Mhrifysgol Aberystwyth, yn astudio bioleg sy'n sail i filfeddygaeth, yn meithrin sgiliau sylfaenol wrth drin anifeiliaid fferm, ceffylau, ac anifeiliaid anwes, yn ogystal â datblygu eich dawn gyfathrebu, datrys problemau a gweithio mewn tîm. Mae gan Brifysgol Aberystwyth hanes hir o ddarparu addysgu ac ymchwil ar iechyd anifeiliaid ac mae'r brifysgol wedi ymrwymo i addysg o'r radd flaenaf.

Ym mlwyddyn tri, pedwar a phump, byddwch yn astudio ar Gampws Hawkshead y Coleg Milfeddygaeth Brenhinol yn Swydd Hertford, lle byddwch yn ennill yr wybodaeth a'r sgiliau ymarferol uwch mewn gwyddor glinigol sy'n angenrheidiol er mwyn gallu cofrestru fel milfeddyg. Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch yn ymgymryd â'ch hyfforddiant clinigol mewn milfeddygfeydd cydweithredol, ac mewn milfeddygfeydd preifat ym mlynnyddoedd pedwar a phump. Ar ben hyn, byddwch yn dod yn ôl i Brifysgol Aberystwyth ym mlynnyddoedd pedwar a phump i gael cylchdroeon o hyfforddiant clinigol arbenigol am gyfnod penodol.

Mae gan y Coleg Milfeddygaeth dair adran academiaidd a chlinigol eithriadol. Mae'r darlithwyr ymhob adran ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygol nid yn unig yn ymchwilyr a chlinigwyr ar lwyfan byd-eang sy'n llwyr ymroddedig i'w meysydd; y maent hefyd yn weithwyr proffesiynol arbennig o gymwysedig.

Ym Mhrifysgol Aberystwyth, bydd myfyrwyr yn elwa o ddefnyddio ffermydd eang y Brifysgol, Canolfan Geffylau Lluest a chyfeusterau addysgu eraill.

Modiwlau

Y ffrydiau sy'n sail i'r addysgu yw:

O'r flwyddyn gyntaf i'r drydedd:

- Principles of Science
- Locomotor
- Cardiovascular and respiratory
- Urogenital: renal
- Urogenital: reproduction
- Alimentary system
- Neurology and special senses
- Lymphoreticular and Haematopoietic
- Skin
- Population medicine and veterinary public health (PMVPH)
- Scholarship evidence-based medicine.

Y bedwaredd a'r bumed flwyddyn:

Bydd y rhan fwyaf o'r addysgu yn y ddwy flynedd olaf ar ffurf cylchdroeon clinigol, lle byddwch yn gweithio mewn grwpiau bach yn rhan o dîm clinigol.

Byddwch yn cymryd rhan mewn cylchdroeon rhyng-golegol a lleoliadau ClinEMS ar draws rhywogaethau a disgyblaethau. Byddwch hefyd yn ymgymryd â phrosiect ymchwil o'ch dewis eich hun.



Addysgu Ymarferol a Chlinigol

Efrydiau Allanol Hwsmonaeth Anifeiliaid (AHEMS)

Ymgymyerir ag AHEMS yn ystod dwy flynedd gyntaf y rhaglen. Mae lleoliadau AHEMS wedi'u llunio i'ch cynorthwyo i gyfnerthu'r hyn a ddysgoch am hwsmonaeth anifeiliaid, i ddatblygu sgiliau trin anifeiliaid, a dysgu am ddiwydiannau anifeiliaid. Rhaid cwblhau 12 wythnos o AHEMS cyn cael mynediad i drydedd flwyddyn y cwrs. Er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o anghenion y byd milfeddygol yng Nghymru, mae'n ofynnol bod o leiaf chwe wythnos o'r AHEMS yn cael eu cyflawni yng Nghymru.

Efrydiau Allanol Clinigol (ClinEMS)

ClinEMS yw'r cyfnod a neilltuir i ennill profiad clinigol ymarferol ym mlynnyddoedd olaf eich rhaglen filfeddygol, i ategu eich dysgu a'ch profiad clinigol. Trwy gyfrwng ClinEMS byddwch yn ennill profiad mewn amrywiaeth o sefydliadau gwahanol, clinigol a chysylltiedig â milfeddygaeth, lle byddwch yn cadarnhau'r hyn a ddysgoch am ddiagnosis a rheoli clefydau anifeiliaid, yn gwella eich sgiliau clinigol ymarferol, ac yn cael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae sefydliadau milfeddygol yn gweithredu.

Byddwch yn ymgymryd â lleoliadau ClinEMS ym mlynnyddoedd tri, pedwar a phump y rhaglen BVSc, sef cyfanswm o 26 wythnos mewn lleoliadau. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r milfeddygfeydd yng Nghymru, bydd o leiaf 13 wythnos o'r ClinEMS yn cael eu cyflawni yng Nghymru.


Cylchdroeon clinigol rhyng-golegol

Yn ystod dwy flynedd olaf y cwrs, bydd eich profiad clinigol yn canolbwyntio ar arsylwi, trafod a phrofiad ymarferol o fod yn aelod o'r tîm clinigol yn ysbytai'r Coleg Milfeddygaeth, ac mewn sefydliadau clinigol y mae'r Coleg yn bartner iddynt. Yn ystod eich cyfnod ar gylchdroeon, caiff eich dysgu a'ch dealltwriaeth ei ategu gan ystod eang o ddarlithoedd, seminarau a gweithdai.


Ehangu Cyfranogiad

Mae Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol wedi ymrwymo i ehangu mynediad ac i groesawu ceisiadau gan fyfyrwyr o bob cefndir. Caiff cyrhaeddiad academiaidd ac anacademaidd ymgeisywyr ei ystyried gyda golwg ar gefndir economaidd-gymdeithasol ac addysgol, er mwyn sicrhau darlun cynhwysfawr o gyrhaeddiad a photensial ymgeisydd. Ewch i www.aber.ac.uk/vet-sci i gael rhagor o wybodaeth.

Ffeithiau Allweddol







Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Hydref. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

Gair i gall: Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

Gair i gall: Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

7 Dechreuwch bacio!





Canolfan Addysg Milfeddygaeth,
 Prifysgol Aberystwyth,
 Aberystwyth,
 Ceredigion,
 SY23 3FL

☎ +44 (0)1970 621646

@ vet@aber.ac.uk

f @abervetschool

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
 Marchnata a Denu Myfyrwyr,
 Prifysgol Aberystwyth 2022.



Argraffwyd ar bapur
 wedi'i ailgylchu 100%